

Cyngor Cymuned Llanycil

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Mehefin 13eg 2017 yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Gwynedd Jones (Cadeirydd), Geraint Jones, Rhys Richards, Gwynfryn Williams, Jean Roberts, Euros Puw, Arwel Davies a'r clerch.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Geraint Davies a'r Cyng. Elwyn Edwards.

a) Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

b) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

i) Cynghorwr newydd.

Roedd y clerch wedi arddangos yr hysbysiadau perthnasol ond gan nad oedd unrhyw enw wedi dod ymlaen roedd y cyngorwyr yn rhydd i gyfethol aelod newydd.

b) Archwilio llochesi bws yn Rhyduchaf a Parc.

Cafwyd adroddiad am gyflwr y llochesi bws a chytunwyd i wneud ymholiadau ynglŷn â chael prisiau am wneud y gwelliannau i'r lloches yn Rhyduchaf. Oherwydd cyflwr gwael y lloches yn Parc a'r diffyg defnydd cytunwyd i wneud ymholiadau ynglŷn â'r drefn gywir o'i dynnu lawr a gwaredu'r deunydd.

c) Ymateb i'r cwynion a anfonwyd i Gyngor Gwynedd.

i) Tacluso ochr y ffyrdd o amgylch pentref Parc.

Cafwyd cadarnhad fod swyddogion Cyngor Gwynedd wedi cysylltu â Jean Roberts ac roedd trefniadau mewn llaw i dorri'r glaswellt.

ii) Difrod i'r ffordd ger Beudy Uchaf a Pant Neuadd, Parc - cafwyd cadarnhad fod y ffordd wedi cael ei thrwsio.

Dŵr daear yn achosi problemau ger Ysgubor Gerrig, Rhyduchaf.

Yn dilyn ymweliad swyddog Dŵr Cymru a'r safle, derbyniwyd e-bost yn egluro nad oeddynt o'r farn mae eu cysylltiad dŵr/pibelli oedd yn achosi'r broblem. Gofynnwyd i'r clerch anfon yn nol atynt yn datgan siom y Cyngor i'w ymateb a chadarnhau fod y broblem dim ond wedi amlygu ar ôl iddynt osod y beipen ddŵr newydd rhai blynyddoedd yn nol.

c) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cyngor Gwynedd

i) Rhaglen waith yr Adran Priffyrdd ar gyfer mis Mehefin.

b) Parc Cenedlaethol Eryri.

i) Manylion cyfarfodydd y Parc a'r Cyngorau Tref a Chymuned.

ii) Roedd y Parc yn cynnig 4 coeden afal am ddim i bob Cyngor Cymuned felly cytunwyd i dderbyn eu cynnig.

c) Un Llais Cymru

i) Llythyr yn ein hysbysu bod cyfarfod nesaf Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn cael ei gynnal yn Nolgellau ar y 21/6/17.

ch) Materion Ariannol.

i) Ffurflen Archwiliad Blynyddol.

Adroddodd y clerch bod y cyfrifon a'r ffurflen wedi cael ei archwilio gan yr archwilydd mewnol.

Cytunwyd yn unol â gofynion y datganiadau Cyfrifyddu a Llywodraethu yn y ffurflen Archwiliad Blynyddol. Adroddodd y clerc y byddai'n anfon y ffurflen a'r dogfennau perthnasol ymlaen i'r archwilwyr mewnol.

ii) Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

a) TGTHE (TWE)

b) Anfoneb Swyddfa Archwilio Cymru (BDO - archwilwyr allanol) - yn dilyn trafodaeth cytunwyd nad oedd yn debygol y byddai'r Cyngor yn derbyn atebion pellach i'w ymholiadau ynglŷn â'r ffi a godwyd am archwilio cyfrifon 2015/16 felly cytunwyd i dalu'r anfoneb. Gyda'r taliad cytunwyd i gynnwys llythyr yn ategu anfolondreb y Cyngor i'r ffordd a ddelwyd gyda'u cwyn a'r anghysondebau yn y gofynion a anfonwyd gyda'r ffurflen Archwiliad Blynyddol 2016/17.

iii) Cynllun Pensiwn.

Derbyniwyd llythyr gan y clerc yn cadarnhau nad oedd yn dymuno ymuno a chynllun pensiwn.

d) Unrhyw Fater Arall

Cytunwyd i basio'r cwynion canlynol ymlaen i Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd.

i) Cae chwarae Parc - roedd y trigolion lleol wedi cwyno bod angen torri'r glaswellt.

ii) Ffordd Rhyduchaf - roedd cwynion bod y ffordd ger Fedw Arian Isaf yn anwastad ac yn achosi i gerbydau gyda threlars wyro i ganol y ffordd

iii) Bryn Tirion, Maesywaen - roedd y ffordd gerllaw wedi rhoi gan fod nifer fawr o loriau coed wedi bod yn ei defnyddio yn ddiweddar.

4) Cyffdy, Parc – bu i goeden godi rhan o'r ffordd ger Cyffdy peth amser yn nol a gofynnwyd i'r clerc holi pryd fyddai'r safle yn cael ei atgyweirio.